# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

www.moldtowncouncil.org.uk

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffộn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

**Aelodau Cyngor Tref Yr Wyddgrug**

24ain Ionawr 2025

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm Ddydd Mercher 29ain Ionawr, 2025** yng Nghanolfan Bryn y Beili, Ffordd Dinbych. Bydd ar gael hefyd drwy Gynhadledd Fideo fel cyfarfod hybrid, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

## AGENDA

### CYFRANOGAETH Y CYHOEDD

Mae ymrwymiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymgysylltu â'r gymuned ac felly mae'n estyn croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cyngor Tref yr Wyddgrug yn caniatáu clustnodi 15 munud o dan yr eitem 'Cyfranogaeth y Cyhoedd' ar yr agenda gan ddyrannu hyd at 5 munud fesul pwnc.

Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cyfarch y cyfarfod o dan Gyfranogaeth y Cyhoedd:

- Roi gwybod i Glerc y Dref eu bod eisiau siarad, a hynny erbyn 4.30pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.
- Gyfeirio pob sylw/cwestiwn at gadeirydd y cyfarfod.

Dylai aelodau'r cyhoedd nodi y bydd y cyngor ond yn trafod pynciau sydd wedi eu cyhoeddi ar yr agenda, a dim ond am y rhain y gall wneud penderfyniadau. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu codi, bydd cyfarfod y Cyngor Tref yn cychwyn am 6pm.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy’n hysbys am eitemau ar yr agenda.

**3. CYHOEDDIADAU’R MAER**

**Derbyn** Cyhoeddiadau’r Maer

**4. COFNODION**

4.1 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 27ain Tachwedd 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir

4.2. **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Mynwentydd a gynhaliwyd ar 4ydd Rhagfyr 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 10fed Rhagfyr 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.4 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 16eg Rhagfyr 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir

4.5 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 13eg Ionawr 2025 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir

4.6 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant a gynhaliwyd ar 14eg Ionawr 2025 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir

4.7 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu ac Adfywio Cymuned a gynhaliwyd ar 15fed Ionawr 2025 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**5. RHESTR WEITHREDU CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

**Nodi’r** Rhestr Weithredu sydd ynghlwm.

**6. GOHEBIAETH**

**Nodi**’r ohebiaeth ddilynol a dderbyniwyd ac **ystyried** lle bo raid pa gamau gweithredu sy’n angenrheidiol:

(i) Cais gan WSP i fynychu a rhoi cyflwyniad/diweddariad am Biblinell Gangen Carbon Deuocsid Padeswood yng Nghyfarfod y Cyngor Tref ym mis Mawrth 2025.

(ii) Adroddiadiadau o Ŵyl Daniel Owen 2024 a chais am £450 o gymorth ariannol parhaus yn 2025.

## 7. ADRODDIADAU SWYDDOGION

(a) **Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol (ynghlwm).

(b) **Derbyn** adroddiad gan Glerc y Dref (ynghlwm).

## 8. CALENDR DIGWYDDIADAU DRAFFT AR GYFER 2025

**Ystyried** y calendr digwyddiadau drafft sydd ynghlwm ar gyfer 2025 mewn perthynas â digwyddiadau Cyngor Tref yr Wyddgrug.

## 9. LWFANS AELODAU

**Ystyried** Lwfans Aelodau ar gyfer 2025:

Cadeirydd: £500

Cynghorwyr – yn unol ag IPRM:
£156 – Lwfans i gydnabod bod Cynghrowyr yn ysgwyddo costau er mwyn cyflawni eu rolau.
£52 – Taliad mewn perthynas â ffôn, band llydan.
Cyfanswm: £208

## 10. GOSOD CYLLIDEB/PRAESEPT 2024/25

**Ystyried** y gyllideb ddrafft a argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid (ynghlwm).

**Ystyried** yr argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid am newidiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd (ynghlwm).

**Cytuno** ar y praesept ar gyfer 2025-2026 (ynghlwm).

## 11. AROLWG Y PWYLLGOR ARDAL

**Cytuno** ar ymateb i Arolwg Ardal, Un Llais Cymru (ynghlwm).

## 12. PWY SY'N GYFRIFOL AM Y GELFYDDYD YNG NGHANOL TREF YR WYDDGRUG

Derbyniwyd cais gan y Cyngh Bithell I **drafod** y gwaith celf yng Nghanol Tref yr Wyddgrug a phwy sy'n gyfrifol am ofalu amdano.

## 13. Y CYNGOR IEUENCTID A PHLANT

**Derbyn** y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan y Cyngh. Megan Lloyd Hughes, Cadeirydd Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant.

PENDERFYNIAD: Hoffai Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant i'r Cyngor Tref ystyried ysgrifennu at y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Gogledd Cymru i dynnu sylw at bryderon y Cyngor Ieuenctid mewn perthynas â fêpio a'r dymuniad i gael mwy o bresenoldeb Plismyn o amgylch ysgolion.

## 14. Y PWYLLGOR DATBLYGU AC ADFYWIO CYMUNED

**Ystyried** y cais gan y Pwyllgor Datblygu ac Adfywio Cymuned (ynghlwm).

## 15. COLOFNAU GOLEUADAU STRYD – BLACKBROOK

**Ystyried** yr e-bost a dderbyniwyd gan Glerc Cyngor Cymuned Llaneurgain.

## 16. BIN HALEN I HAFN DEG

**Ystyried** cais a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Geoff Collett.

Mae'r Cyngh. Collett wedi derbyn cais gan un o'r trigolion sydd eisiau i Gyngor Tref yr Wyddgrug ystyred rhoi bin halen yn Hafn Deg.

## 17. COD YMDDYGIAD

**Ystyried** yr argymhelliad isod gan y Cyngh Teresa Carberry:

Yn ystod fy aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau yn y Sir, rwyf wedi gweld y gwir bwysigrwydd a'r cyfrifoldeb sydd ar bob Cynghroydd i weithredu'r Cod Ymddygiad a bod â dealltwriaeth dda ohono.

Mae Un Llais Cymru, yr ydym ni fel Cyngor yn tanysgrifio iddo, yn cynnig hwn fel Modiwl Hyfforddi.

Hoffwn argymell bod y Cynghorwyr i gyd yn gwneud y modiwl hwn gynted ag y gallent, yn cynnwys ein Cynghorwyr Newydd eu hethol a hefyd i wneud yr hyfforddiant a gynigir gan Brif Swyddog Llywodraethu Cyngor Sir y Fflint.

Ar hyn o bryd mae gan ein Clerc y Dref recordiad o'i sesiwn hyfforddi ddiweddaraf, a gallwch weld hon yn hawdd os gwnewch gais iddi. Yna bydd Clerc y Dref yn cofnodi'r ffaith bod y recordiad wedi cael ei wylio gan y Cynghordd,a bydd yn darparu rhestr o enwau i Brif Swyddog Llywodraethu'r Sir.

Rwy'n awgrymu ymhellach bod ein Swyddogion i gyd yn gwylio'r fideo er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r safonau a ddisgwylir gan Gynghorwyr, a bod hyn hefyd yn cael ei gofnodi gan ein Clerc

**18. ADRODDIAD AEDDFEDRWYDD IECHYD DIGIDOL**

**Nodi'r** Adroddiad Aeddfedrwydd Iechyd Digidol i Gyngor Tref Yr Wyddgug a gwblhawyd gan Un Llais Cymru.

**19. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

**Nodi**'r adroddiad sydd ynghlwm.

**20. CYFRIFON/TALIADAU**

**Cymeradwyo'r** amserlenni sydd ynghlwm sy'n dangos y cyfrifon i gyd – Mis 8 a 9, yn nodi bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â grymoedd cynghorau lleol.

**21. EITHRIO'R CYHOEDD A'R WASG**

**Ystyried** eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod er mwyn gallu trafod materion cyfrinachol.

**22. DARPARYDD FFÔN A RHYNGRWYD**
**Ystyried** y dyfynbrisiau sydd ynghlwm gan ddarparwyr Ffôn a Rhyngrwyd ar gyfer y Swyddfeydd Cyngor Tref newydd.

**NOTE:**
Members of the press and public may attend this meeting (but not speak unless by prior arrangement with the Town Clerk and Finance Officer).

**ZOOM INSTRUCTIONS**

**Join Zoom Meeting**
**https://us02web.zoom.us/j/87683631159?pwd=EKrFY8ZYhhkFttaudz944D0mZwutGU.1**

**Meeting ID: 876 8363 1159**
**Passcode: 405387**

**NODWCH:**
Mae caniatâd i aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond ni chânt siarad heblaw eu bod wedi trefnu hynny o flaen llaw gyda Chlerc y Dref a'r Swyddog Cyllid).

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

**Ymuno â'r Cyfarfod Zoom**
**https://us02web.zoom.us/j/87683631159?pwd=EKrFY8ZYhhkFttaudz944D0mZwutGU.1**

**ID y Cyfarfod: : 876 8363 1159**
**Cyfrinair: 405387**